# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 18 Awst 2020** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.Rahaman (Port Talbot) a/ac S.E.Freeguard (Port Talbot) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, N.Lake, T.Davies, R.MacGregor, S.Blewett a/ac T.Davies |

---

1. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau mewn perthynas â'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

2. **CAIS RHIF P2020/0470 - NEUADD EFENGYLU, YNYS STREET, PORT TALBOT**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Newid defnydd o Neuadd yr Efengyl (defnydd dosbarth D1) i garej/storfa/weithdy at ddefnydd anfasnachol (defnydd Sui Generis), a hefyd gosod drws pren i'r blaenlun a gosod croesfan llwybr troed a cherbydau newydd wrth Neuadd yr Efengyl, Ynys Street, Port Talbot) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddodd ddau Aelod Ward Lleol eu sylwadau ar yr eitem hon.

Nododd yr aelodau fod gwall argraffu yn Amod 7, lle'r oedd y gair 'any' wedi'i adael allan. Mae'r gwall wedi'i gywiro isod, ac wedi'i amlygu mewn ***llythrennau bras ac italig.***

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0470, yn unol ag argymhellion swyddogion, gan ystyried y diwygiad i Amod 7, fel y manylir isod, ac yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

- Amod 7: Bydd y gair 'cerbyd' yn cymryd lle'r gair 'car' fel isod:

  Cyfyngir y garej a gymeradwyir (defnydd Sui Generis) i weithgareddau anfasnachol, gan gynnwys storio/cadw uchafswm o ddau gerbyd modur a dau feic modur, a chaniatáu i uchafswm o dri cherbyd modur (ac eithrio beiciau modur) ar unrhyw adeg, ynghyd â storio eitemau domestig ac eitemau cysylltiedig eraill, ac ni chaniateir defnyddio'r eiddo ar gyfer unrhyw weithgaredd masnachol ar ***unrhyw*** adeg, gan gynnwys chwistrellu ceir .

  Rheswm:
  Er lles amwynder gweledol a phreswyl, diogelwch priffyrdd a cherddwyr ac i gydymffurfio â Pholisïau BE1.

3. **CAIS RHIF P2020/0627 - 4 WOODLANDS TERRACE, RESOLFEN**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Dymchwel yr ystafell aml-bwrpas bresennol a rhoi estyniad unllawr i'r ochr/cefn yn ei lle, ynghyd â chadw a chwblhau gasebo pren i'r ystlyslun yn 4 Woodlands Terrace, Resolfen, Castell-nedd SA11 4NG) fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0627, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

# CADEIRYDD